**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth – 5 Gorffennaf 2023 – 12pm**

*Yn bresennol:* Sam Rowlands AS, Tom Giffard AS, Steffan Roberts, Lucy von Weber, Suzy Davies, Jim Jones, Alistair Handyside, Val Hawkins MBE, Shoko Doherty, Felix Milbank, Molly Skates, Jena Quilter, Kate Pritchard, Tom Perry, Rhys Thomas

- Sylwadau rhagarweiniol gan Sam Rowlands (SaR) a Suzy Davies (SD).
- Cafwyd cyflwyniad gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar dwristiaeth ryngwladol, dan arweiniad Steffan Roberts (StR).
- Gwerthusiad annibynnol o ymgyrchoedd twristiaeth Cwpan y Byd FIFA i'w gyhoeddi yr wythnos nesaf.
- Eglurodd Lucy von Weber (LvW) wariant llawer uwch ymwelwyr rhyngwladol o gymharu ag ymwelwyr domestig - £198 v £70.
- Sylw mawr i'r cyffro ynghylch Clwb Pêl-droed Wrecsam a'r gyfres ddogfen.
- Mae 90% o farchnad dwristiaeth Cymru yn ddomestig – y DU a Chymru gyfan.
- O ran gwledydd tramor, yr Almaen, Gweriniaeth Iwerddon, Ffrainc a'r Iseldiroedd sydd dan sylw.
- Mae twristiaeth antur gynaliadwy yn dod yn atyniad mwy arwyddocaol.
- Mae hyn yn mynd law yn llaw â gwella cynnyrch craidd fel Llwybr Arfordir Cymru.
- Yn 2022, daeth 686,000 o ymwelwyr rhyngwladol i Gymru, 460,000 o'r rheiny o Ewrop.
- Cyfrannodd Jim Jones (JJ) er mwyn dweud bod gwaith marchnata bwrdd twristiaeth Iwerddon yn hynod o dda.
- Soniodd hefyd am hyrwyddo Conwy yn Japan, fel tref hardd. Cefnogwyd hynny gan SaR.
- A ddylem fod yn dewis lleoliadau penodol i'w hyrwyddo?
- Dywedodd LvW fod TXGB (Tourism Exchange GB), sy'n symleiddio'r cysylltiadau rhwng llety, atyniadau a phrofiadau, wedi gweddnewid pethau.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd ysgolion iaith.
- Ar gyfer ymwelwyr o'r DU, mae Croeso Cymru yn canolbwyntio ar gyrchfannau poblogaidd anhraddodiadol – er enghraifft, nid Dinbych-y-pysgod.
- Siaradodd Rob Holt (RH) am weithgareddau sy'n ymwneud â digwyddiadau.
- Soniodd Shoko Doherty (SD) am bwysigrwydd marchnadoedd y Dwyrain Canol a De America, oherwydd y tymhorau cyferbyniol.
- Mae pobl o'r Dwyrain Canol yn fwy tebygol o fwynhau tywydd glawog hefyd!
- Aeth SD ymlaen i ddweud bod asiantaethau teithio yn dal i fod yn ffactor arwyddocaol o ran ymwelwyr â Chymru – sut ydyn ni'n apelio atyn nhw, a ydyn nhw'n cael eu gwahodd i Gymru?
- Bydd Darganfod Cymru yn dod â gweithredwyr rhyngwladol yma ym mis Hydref 2023.
- Soniodd Felix Milbank (FM) am lwybrau posibl o Faes Awyr Caerdydd i Sgandinafia a chyfarfod nad oedd cynrychiolwyr y Maes Awyr wedi mynd iddo.
- Ymatebodd StR i'r pwynt hwn a gofyn i FM anfon rhagor o fanylion ato drwy e-bost er mwyn egluro'r sefyllfa.
- O ran yr eitem nesaf, 182 o ddiwrnodau, roedd disgwyl y byddai'r Dirprwy Weinidog Dawn Bowden yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf cyn hir.
- Roedd disgwyl cyhoeddiad ar drwyddedu cyn hir hefyd.
- Unrhyw Fater Arall – dymuniadau gorau gan y grŵp i Adrian Greason-Walker am adferiad buan, a llongyfarchiadau i Val Hawkins MBE ar ei hanrhydedd.
- Cyfarfod nesaf – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.